



Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Coedffranc

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Trosolwg

Wrth ystyried gwelliannau aruthrol yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf, ni ddylid tanamcangyfrif y dylanwad mae arweinyddiaeth wedi'i gael. Mae'r pennaeth wedi creu ethos tîm pwerus ymhlith staff, sy'n cael ei adeiladu ar sail perthnasoedd cadarnhaol, ymddiriedaeth a chydweithio. Mae'r ymagwedd hon yn amlygu'r gorau oll ymhlith staff yr ysgol trwy eu hannog a'u galluogi i wneud y defnydd gorau posibl o'u medrau a'u profiad, er enghraifft trwy ddarparu cymorth rhagorol ar gyfer teuluoedd yn y gymuned leol. Mae arweinwyr yr ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda, gan gynnwys diwygio'r cwricwlwm ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae gan arweinwyr ar draws yr ysgol, gan gynnwys llywodraethwyr yr ysgol, ddisgwyliadau cyson uchel ohonyn nhw eu hunain a staff, a dyheadau uchel ar gyfer pob un o'r disgyblion.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau eu hamser yn Ysgol Gynradd Coedffranc. Maent yn datblygu lefelau uchel o barch am yr oedolion sy'n gofalu amdanynt, ac ymddiriedaeth y bydd staff bob amser yn gweithredu er eu lles pennaf. Maent yn ymddwyn yn dda, yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag ystod amrywiol y profiadau a'r cyfleoedd dysgu sy'n cael eu darparu gan yr ysgol, ac yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i gymuned yr ysgol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai yng Nghanolfan Phoenix, yn gwneud cynnydd da, ar y cyfan. Maent yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddarllen, ac yn siarad â brwdfrydedd am eu gwaith ar draws y cwricwlwm, yn enwedig cyfleoedd i fod yn greadigol ac yn gorfforol egnïol. Maent yn datblygu gwybodaeth a medrau mathemategol da ond nid ydynt yn defnyddio'r medrau hyn yn ddigon aml neu gystal ag y gallent yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. At ei gilydd, mae agweddau disgyblion at ddysgu yn dda. Maent yn awyddus i wneud yn dda ac ymgymryd â heriau newydd. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn dechrau datblygu medrau defnyddiol sy'n eu helpu i fyfyr ar eu dysgu a meddwl am sut gallent wella'u gwaith. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cael digon o ddylanwad dros eu dysgu eu hunain neu mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

Mae staff yn adnabod y disgyblion, eu hanghenion a'u diddordebau yn dda iawn. Yn yr ysgol brif ffrwd a Chanolfan Arbenigol Phoenix, maent yn darparu lefelau uchel o ofal, cymorth ac arweiniad sy'n cynorthwyo disgyblion i fwynhau'r ysgol a chymryd rhan yn effeithiol mewn dysgu. Mae staff yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n gweddu i ysbryd a dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn amlwg mewn gwaith i archwilio cysyniadau fel 'Perthyn' sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, gan ddefnyddio eu hardal a'i nodweddion yn symbyliad ar gyfer llawer o'u dysgu. Mae athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau, fel technegau holi effeithiol, i ymestyn y dysgu. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn darparu dilyniannau o wersi sy'n cynorthwyo disgyblion i feithrin eu medrau yn raddol. Fodd bynnag, mae cynllunio athrawon ar gyfer dilyniant ar draws yr ysgol yn anghyson, ar y cyfan. Ar adegau, mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio'n fanwl gywir ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.



Argymhellion

- A1 Datblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddisgwyliadau staff ymhellach ar gyfer dilyniant disgyblion trwy'r ysgol, a gwella'r defnydd o strategaethau asesu i gefnogi cynnydd disgyblion yn fwy effeithiol
- A2 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm ar y lefel y gallant
- A3 Ymestyn dylanwad disgyblion dros eu dysgu a bywyd a gwaith yr ysgol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â'i strategaeth deuluol a chymunedol a datblygu ei harweinyddiaeth, i'w lledaenu ar wefan Estyn.



Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Gynradd Coedffranc
Awdurdod lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Cynradd
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	418
Disgyblion o oed ysgol statudol	295
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	70
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%)	30.7%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%)	21.7%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	4.4%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/11/2016
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	04/02/2014
Dyddiad dechrau'r arolygiad	24/10/2022

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/12/2022